
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad blynyddol i'r Senedd ar y rhaglen monitro enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs) – 2023











Rhagfyr
2024

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 6.4 o Reoliad (EC) Rhif 999/2001 sy'n pennu'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy (TSE) | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Os oes gennych gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch ag animaldiseases@gov.wales

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50818, ISBN digidol 978-1-83625-766-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) mewn gwartheg 4

Clefyd y crafu mewn defaid a geifr 5

Nychdod cronig (CWD) mewn ceirw 6

Atodiad 1: Profion BSE ar wartheg 2023 7

Atodiad 2: Clefyd y Crafu – canlyniadau profion a data cysylltiedig 2023 15

Atodiad 2a: Clefyd y Crafu – manylion canlyniadau positif 17

Atodiad 2b: Clefyd y Crafu – diadellau 2023 19

# Cyflwyniad

**Mae Rheoliad a Gymathwyd (EC) Rhif 999/2001, yn pennu'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy (TSEs) mewn da byw. Mae'r clefydau hynny'n cynnwys enseffalopathi sbyngffurf buchol (BSE) ('clefyd y gwartheg gwallgof'), clefyd y crafu sy'n effeithio ar ddefaid a geifr a'r clefyd nychdod cronig (CWD), sy'n effeithio ar geirw.**

Mae Erthygl 6 o'r Rheoliad yn nodi'r gofyn am raglen flynyddol ar gyfer monitro TSEs sy'n seiliedig ar gadw gwyliadwriaeth weithredol a goddefol. Mae'r rhaglen cadw gwyliadwriaeth yn monitro lefel BSE, yn arbennig, dros amser ac felly'n cadarnhau bod y mesurau i reoli BSE yn parhau'n effeithiol. Mae Erthygl 6 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r awdurdod priodol, lle bo'n bosibl, gyflwyno adroddiad blynyddol i'w Senedd berthnasol ar gyfer pob blwyddyn galendr ar y rhaglen fonitro hon. Bydd yr adroddiad felly'n darparu data am Brydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) yn 2023.

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen wedi'i nodi yn Atodiad III, Pennod B, Rhan I (Gofynion Adrodd a Chofnodi; Gofynion ar awdurdodau priodol) o'r Rheoliad).

Mae'r rhan fwyaf o'r data, o 2007 ymlaen, ar gael ar GOV.UK, ac wedi'u darparu drwy'r dudalen we hon ers 2015: https://www.gov.uk/government/publications/active-tse-surveillance-statistics.

Mae'r data hyn yn cael eu diweddaru bob mis.

## Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) mewn gwartheg

O dan ein rhaglen cadw gwyliadwriaeth egnïol, cynhelir tua 100,000 o brofion BSE bob blwyddyn. Cynhelir profion BSE ar anifeiliaid buchol (gwartheg) sydd wedi'u geni yn y DU neu yn un o wledydd yr UE heblaw am Rwmania neu Fwlgaria ac:

- mae'r anifail dros 48 mis oed ac yn dangos **arwyddion o salwch** pan gafodd ei archwilio gan filfeddyg cyn iddo farw
- mae'r anifail dros 48 mis oed ac wedi'i anfon i'w **ladd mewn argyfwng** (er enghraifft, anifail sâl nad oedd yn ymddangos yn sâl, ond a oedd wedi torri coes neu wedi dioddef anaf arall)
- mae'r anifail dros 48 mis oed ac yn **stoc drig**, hynny yw, nid oedd wedi marw o ganlyniad i gael ei ladd i'w fwyta gan bobl
- mae'r anifail dros 30 mis oed ac wedi'i ladd at ddefnydd preifat y ffermwr: **'anifail a laddwyd gartref'**.

Yn ogystal, mae ein rhaglen cadw gwyliadwriaeth yn gofyn am y canlynol:

- Profion BSE ar wartheg a laddwyd i'w bwyta gan bobl mewn lladd-dy os cawsant eu geni yn Rwmania, Bwlgaria neu unrhyw wlad y tu allan i'r UE a'u bod dros 30 mis oed ac yn iach adeg eu lladd
- Profion BSE ar wartheg sy'n stoc drig, a gafodd eu hanfon i'w lladd mewn argyfwng, neu a oedd yn dangos arwyddion o salwch pan gawsant eu harchwilio gan filfeddyg cyn iddynt farw, a anwyd yn Rwmania, Bwlgaria neu unrhyw wlad nad yw'n aelod o'r UE a thros 24 mis oed pan fuont farw.

Mae data blwyddyn galendr 2023 i'w gweld yn atodiad 1.

Mae'r data'n ymdrin hefyd â nifer fach o wartheg oedd o dan 48 mis oed, gan fod profion weithiau'n cael eu cynnal cyn bod modd cadarnhau oed yr anifail. Mae yna hefyd nifer fach o wartheg nad ydym yn gwybod eu hoed am iddynt gael eu geni cyn i basbortau gael eu cyflwyno neu am nad yw'r ceidwad wedi'u cofnodi. Roedd yr anifeiliaid hyn i gyd yn **'stoc drig'** nad ydynt yn ymuno â'r gadwyn fwyd.

Yn ystod 2023, cadarnhawyd **1** achos o BSE annodweddiadol yng Nghernyw mewn **1 fuwch** a gafodd ei phrofi fel 'stoc drig' dros 48 mis oed. Ni fyddai'r anifail hwn, fel stoc drig, wedi ymuno â chadwyn fwyd pobl ac nid oedd felly o unrhyw risg i iechyd y cyhoedd.

Mae BSE annodweddiadol yn glefyd nad yw'n heintus sy'n digwydd yn naturiol ac yn ysbeidiol, a chredir ei fod yn digwydd ar raddfa fach iawn ym mhob poblogaeth o wartheg. Mae'n wahanol i BSE clasurol sy'n gysylltiedig â bwyd wedi'i halogi.

Cafodd epil o dan 24 mis oed a chohort y fuwch oedd â'r BSE annodweddiadol hwn eu clustnodi a'u gosod dan gyfyngiadau. Roedd ganddi **2** epil ac roedd **1** anifail yn ei chohort oedd wedi goroesi. Anifeiliaid y cohort yw'r rhai a anwyd yn yr un fuches â'r fuwch yr effeithiwyd arni o fewn 12 mis cyn neu ar ôl dyddiad geni'r fuwch honno; ac anifeiliaid ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn gyntaf eu bywyd a fagwyd gyda'r fuwch yr effeithiwyd arni yn ystod blwyddyn gyntaf ei bywyd hithau.

Cafodd yr anifeiliaid hyn eu difa a chymerwyd samplau o goesyn yr ymennydd i'w profi fel sy'n ofynnol o dan y ddeddf. Yna dinistriwyd y carcasau. Roedd pob sampl yn negatif o ran BSE. Cafodd yr anifeiliaid hyn eu cofnodi yn nata 2023 o dan y teitl **'difa BSE'**.

## Clefyd y crafu mewn defaid a geifr

Rydym yn monitro lefel clefyd y crafu yn y ddiadell genedlaethol a'r eifre genedlaethol gan ddefnyddio rhaglen cadw gwyliadwriaeth fyw yn unol â gofynion y ddeddf. Mae'r rhaglen hon yn monitro'r mesurau ar gyfer rheoli clefyd y crafu i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol. Mae'n cynnwys cynnal profion TSE bob blwyddyn ar 20,000 o ddefaid iach a defaid trig dros 18 mis oed. O'r rheini, bydd o leiaf 5,000 ohonynt yn ddefaid iach a laddwyd i'w bwyta gan bobl. Profir hefyd 500 o eifr sy'n stoc drig.

Mae daliadau sydd o dan fesurau rheoli a dileu clefyd y crafu yn cael eu monitro hefyd o dan Gynllun Gorfodol Diadellau Clefyd y Crafu (CSFS). Bydd hynny'n digwydd pan fydd achosion o glefyd y crafu clasurol neu annodweddiadol yn cael eu cadarnhau. Yn wahanol i glefyd y crafu clasurol sy'n effeithio ar anifeiliaid iau ac sy'n hynod heintus, mae clefyd y crafu annodweddiadol fel arfer yn effeithio ar anifeiliaid unigol dros 5 oed a chredir ei fod yn ymddangos ar hap a heb rybudd.

Mae gofynion profi llym o dan y CSFS. Mae'n rhaid i anifeiliaid dros 18 mis oed sy'n mynd i'w lladd gael eu hanfon i ladd-dai dynodedig, lle cânt eu samplu a'u profi am glefyd y crafu. Rhaid i anifeiliaid dros 18 mis oed sy'n marw neu sy'n cael eu lladd ar y fferm hefyd gael eu samplu a'u profi.

Mae'r data ar gyfer blynyddoedd galendr 2023 i'w gweld yn atodiad 2 sy'n nodi niferoedd y defaid a geifr a brofwyd o dan ein rhaglen cadw gwyliadwriaeth genedlaethol a'r CSFS.

Mae'r data'n dangos y nifer fach o achosion o glefyd y crafu annodweddiadol sydd wedi'u cadarnhau a'r wybodaeth ychwanegol y mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn amdani am bob achos unigol. Cafwyd **4** achos mewn **4** diadell wahanol a gosodwyd pob un o'r diadellau hyn o dan y cyfyngiadau sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Ni chafodd unrhyw achosion o glefyd y crafu clasurol eu cadarnhau.

## Nychdod cronig (CWD) mewn ceirw

Mae Rheoliad a Gymathwyd (EC) Rhif 999/2001 yn ymdrin hefyd â CWD, ond nid yw'r ddeddfwriaeth yn gofyn am gynnal rhaglen cadw gwyliadwriaeth fyw amdano. Fel BSE a chlefyd y crafu, mae CWD yn glefyd hysbysadwy sy'n golygu bod rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod cymwys am bob achos a amheuir. Mae gofyn i ni nodi yn yr adroddiad blynyddol nifer y samplau a brofir a nifer yr achosion a gadarnheir. Yn 2023 amheuwyd bod 1 achos mewn carw. Cafodd ei brofi a'i gadarnhau'n negatif. Nid oes unrhyw achos o CWD wedi'i gadarnhau yn y DU hyd yn hyn.

# Atodiad 1: Profion BSE ar wartheg 2023

## i. Lloegr

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 24-35 | 1 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 36-47 | 6 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 48-59 | 45 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 60-71 | 56 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 72-83 | 57 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 84-95 | 42 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 96-107 | 25 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 108-119 | 12 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 120-131 | 16 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 132-143 | 5 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 144-155 | 8 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | >=156 | 13 | negatif |
| Lladd argyfwng | 24-35 | 3 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Lladd argyfwng | 36-47 | 8 | negatif |
| Lladd argyfwng | 48-59 | 1490 | negatif |
| Lladd argyfwng | 60-71 | 1214 | negatif |
| Lladd argyfwng | 72-83 | 959 | negatif |
| Lladd argyfwng | 84-95 | 626 | negatif |
| Lladd argyfwng | 96-107 | 392 | negatif |
| Lladd argyfwng | 108-119 | 250 | negatif |
| Lladd argyfwng | 120-131 | 166 | negatif |
| Lladd argyfwng | 132-143 | 99 | negatif |
| Lladd argyfwng | 144-155 | 55 | negatif |
| Difa BSE | <24 | 1 | negatif |
| Difa BSE | 24-35 | 1 | negatif |
| Difa BSE | >=156 | 1 | negatif |
| Stoc drig | <24 | 1 | negatif |
| Stoc drig | 24-35 | 240 | negatif |
| Stoc drig | 36-47 | 757 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Stoc drig | 48-59 | 11214 | negatif |
| Stoc drig | 60-71 | 11138 | negatif |
| Stoc drig | 72-83 | 9772 | negatif |
| Stoc drig | 84-95 | 8247 | negatif |
| Stoc drig | 96-107 | 6119 | negatif |
| Stoc drig | 108-119 | 4162 | negatif |
| Stoc drig | 120-131 | 3194 | negatif |
| Stoc drig | 132-143 | 2361 | negatif |
| Stoc drig | 144-155 | 1815 | negatif |
| Stoc drig | >=156 | 4572 | negatif |
| Stoc drig | >=156 | 1 | positif (annodweddiadol) |
| Stoc drig | ddim yn gwybod | 428 | negatif |

## ii. Cymru

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 24-35 | 1 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 48-59 | 1 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 60-71 | 5 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 72-83 | 3 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 84-95 | 5 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 96-107 | 3 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 120-131 | 2 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 132-143 | 1 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 144-155 | 1 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | >=156 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | >=156 | 4 | negatif |
| Lladd argyfwng | 36-47 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | 48-59 | 107 | negatif |
| Lladd argyfwng | 60-71 | 83 | negatif |
| Lladd argyfwng | 72-83 | 53 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Lladd argyfwng | 84-95 | 46 | negatif |
| Lladd argyfwng | 96-107 | 32 | negatif |
| Lladd argyfwng | 108-119 | 13 | negatif |
| Lladd argyfwng | 120-131 | 6 | negatif |
| Lladd argyfwng | 132-143 | 8 | negatif |
| Lladd argyfwng | 144-155 | 6 | negatif |
| Stoc drig | <24 | 1 | negatif |
| Stoc drig | 24-35 | 61 | negatif |
| Stoc drig | 36-47 | 147 | negatif |
| Stoc drig | 48-59 | 2582 | negatif |
| Stoc drig | 60-71 | 2681 | negatif |
| Stoc drig | 72-83 | 2286 | negatif |
| Stoc drig | 84-95 | 1989 | negatif |
| Stoc drig | 96-107 | 1615 | negatif |
| Stoc drig | 108-119 | 1140 | negatif |
| Stoc drig | 120-131 | 890 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Stoc drig | 132-143 | 632 | negatif |
| Stoc drig | 144-155 | 475 | negatif |
| Stoc drig | >=156 | 1018 | negatif |
| Stoc drig | ddim yn gwybod | 76 | negatif |

## iii. Yr Alban

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 48-59 | 8 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 60-71 | 4 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 72-83 | 4 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 84-95 | 3 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | 108-119 | 2 | negatif |
| Arwyddion o salwch cyn eu lladd | >=156 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | 24-35 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | 48-59 | 93 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Lladd argyfwng | 60-71 | 71 | negatif |
| Lladd argyfwng | 72-83 | 45 | negatif |
| Lladd argyfwng | 84-95 | 32 | negatif |
| Lladd argyfwng | 96-107 | 19 | negatif |
| Lladd argyfwng | 108-119 | 9 | negatif |
| Lladd argyfwng | 120-131 | 11 | negatif |
| Lladd argyfwng | 132-143 | 6 | negatif |
| Lladd argyfwng | 144-155 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | >=156 | 9 | negatif |
| Stoc drig | >=156 | 1664 | negatif |
| Stoc drig | 24-35 | 8 | negatif |
| Stoc drig | 36-47 | 39 | negatif |
| Stoc drig | 48-59 | 3043 | negatif |
| Stoc drig | 60-71 | 2993 | negatif |
| Stoc drig | 72-83 | 2580 | negatif |
| Stoc drig | 84-95 | 2099 | negatif |

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Stoc drig | 96-107 | 1700 | negatif |
| Stoc drig | 108-119 | 1296 | negatif |
| Stoc drig | 120-131 | 1072 | negatif |
| Stoc drig | 132-143 | 929 | negatif |
| Stoc drig | 144-155 | 674 | negatif |
| Stoc drig | ddim yn gwybod | 127 | negatif |

## iv. Lleoliad anhysbys[1]

| Arolwg BSE | Dosbarth oedran yn ôl mis | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| Stoc drig | 72-83 | 2 | negatif |
| Stoc drig | 84-95 | 1 | negatif |
| Stoc drig | >=156 | 1 | negatif |
| Lladd argyfwng | ddim yn gwybod | 29 | negatif |
| Lladd argyfwng | 84-95 | 1 | negatif |

1 Yn rhai o'r cyflwyniadau sy'n dod i law, nid yw lleoliad marwolaeth yr anifail yn hysbys, y rhan fwyaf ohonynt yn gyflwyniadau gan geidwaid sydd â lês tymor byr ar dir amaethyddol. Mae modd cael gwybod ble mae'r lleoliadau hyn ond nid oes angen ar gyfer anifeiliaid sy'n cael prawf negatif.

# Atodiad 2: Clefyd y Crafu – canlyniadau profion a data cysylltiedig 2023

## Tabl 1

| Arolwg Clefyd y Crafu | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf a chanlyniad annodweddiadol | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf ond clefyd y crafu heb ei gadarnhau | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf a chlefyd y crafu wedi'i gadarnhau |
|---|---|---|---|---|
| Arolwg defaid mewn lladd-dai | 7685 | 1 | 7684 | 0 |
| Arolwg o stoc drig sy'n ddefaid | 11187 | 2 | 11185 | 0 |
| Achosion a amheuir mewn defaid | 2 | 1 | 1 | 0 |
| Arolwg o stoc drig sy'n eifr | 565 | 0 | 565 | 0 |
| **Cyfanswm defaid wedi cael prawf** | **18874** | **4** | **18870** | **0** |
| **Cyfanswm geifr wedi cael prawf** | **565** | **0** | **565** | **0** |

## Tabl 2

| Cynllun Gorfodol Diadellau Clefyd y Crafu (defaid a geifr) | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf a chanlyniad annodweddiadol | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf ond clefyd y crafu heb ei gadarnhau eto | Nifer yr anifeiliaid wedi cael prawf a chlefyd y crafu wedi'i gadarnhau |
|---|---|---|---|---|
| Arolwg Stoc Drig CSFS – Defaid | 317 | 0 | 317 | 0 |
| Arolwg Cychwynnol CSFS Difa Defaid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arolwg Blynyddol CSFS Difa Defaid | 21 | 0 | 21 | 0 |
| Arolwg CSFS o ddefaid sy'n marw wrth eu cludo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arolwg Stoc Drig CSFS – Geifr | 120 | 0 | 120 | 0 |
| Arolwg Cychwynnol CSFS Difa Geifr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arolwg Blynyddol CSFS Difa Geifr | 199 | 0 | 199 | 0 |
| Arolwg CSFS o eifr sy'n marw wrth eu cludo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm defaid wedi cael prawf** | **338** | **0** | **338** | **0** |
| **Cyfanswm Geifr wedi cael prawf CSFS rhwng 01 Ionawr 2023 – 31 Rhagfyr 2023** | **319** | **0** | **319** | **0** |

# Atodiad 2a: Clefyd y Crafu – manylion canlyniadau positif

| Cyfeirnod | Dyddiad Adrodd | Rhyw | Rhywogaeth | Brîd | Dyddiad geni | Oed mewn blynyddoedd | Lleoliad | Crynodeb o'r canlyniad | Canlyniad terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23/00001 | 13/02/2023 | Gwryw | Dafad | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | Essex | Biorad positive 13/02/2023 ǁ Genotype ALRR/ ALRR 28/02/2023 ǁ Modified Western Blot Positive 28/02/2023 ǁ Sheep MicroSatellite Identification MATCH 28/02/2023 ǁ | Clefyd y Crafu Annodweddiadol |
| 23/00002 | 24/03/2023 | Benyw | Dafad | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | Roxburghshire | Biorad positive 31/03/2023 ǁ Genotype AFRQ/ AFRQ 20/04/2023 ǁ IHC Obex Atypical 30/10/2023 ǁ Modified Western Blot positive 11/04/2023 ǁ Sheep MicroSatellite Identification MATCH 19/04/2023 ǁ | Clefyd y Crafu Annodweddiadol |

| Cyfeirnod | Dyddiad Adrodd | Rhyw | Rhywo-gaeth | Brîd | Dyddiad geni | Oed mewn blyny-ddoedd | Lleoliad | Crynodeb o'r canlyniad | Canlyniad terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23/00003 | 02/04/2023 | Benyw | Dafad | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | ddim yn gwybod | Swydd Amwythig | Biorad positive 04/04/2023 II Genotype ALRR/ALHQ 20/04/2023 II IHC Cerebellum Atypical 17/04/2023 II IHC Obex Atypical 17/04/2023 II Modified Western Blot positive 17/04/2023 II | Clefyd y Crafu Annod-weddiadol |
| 23/00011 | 12/12/2023 | Benyw | Dafad | ddim yn gwybod | 12/06/2016 | 7 | Sutherland | Biorad positive 17/11/2023 II Genotype ALHQ/AFRQ 17/11/2023 II IHC Cerebellum Atypical 17/11/2023 II IHC Obex Atypical 17/11/2023 II Modified Western Blot positive 17/11/2023 II | Clefyd y Crafu Annod-weddiadol |

# Atodiad 2b: Clefyd y Crafu – diadellau 2023

**Nifer y diadellau a'r geifreoedd sydd wedi cael prawf**

| Grŵp prawf | Nifer y diadellau wedi cael prawf |
|---|---|
| Difa CSFS blynyddol – geifr | 1 |
| Stoc drig CSFS – geifr | 1 |
| Arolwg o stoc drig sy'n eifr | >224 |
| Arolwg defaid mewn lladd-dai | ddim yn gwybod* |
| Difa CSFS blynyddol – defaid | 1 |
| Stoc drig CSFS – defaid | 20 |
| Defaid wedi marw wrth eu cludo | 47 |
| Arolwg o stoc drig sy'n ddefaid | >4072 |

* gwybodaeth am y ddiadell heb ei darparu yng nghyflwyniad y lladd-dy

> yn nodi isafswm lle mae niferoedd sylweddol wedi'u cyflwyno heb leoliad wedi'i gofnodi